Ar Drywydd Menywod
Merthyr Tudful

1 DECHRAU

Dilynwch ein trywydd lled wahanol sy'n olrhain hanes lleol menywod Merthyr Tudful, a gafodd, tan yn ddiweddar eu hanwybyddu yn hanes cyfoethog y dref. Mae'n dechrau ac yn gorffen, ar ôl taith gerdded rwydd o tua hanner milltir trwy ganol y dref, â'r Santes Tudful, sef y nawddsant a sefydlodd ac a roddodd ei henw i Ferthyr Tudful. Awgryma'r gair 'merthyr' mai yma y cafodd ei merthyru cyn dyfod yn santes. Ar ôl cyrraedd pob man ar y trywydd gallwch ganfod rhagor am y lleoliad a'i berthnasedd i fenywod Merthyr Tudful dros y dudalen.

Cofeb Ryfel Merthyr Tudful

5 Tafarn y Goron

2 Flooks (Sef Ystafelloedd Te Lunah Heddiw)

3 Redhouse



4 Rosie Royals (Cornel Stryd Fictoria)



6 Llys Janice Rowlands



7 Ffynnon Goffa Robert & Lucy Thomas

8 GORFFEN Eglwys y Plwyf Santes Tudful

CEWCH RAGOR O WYBODAETH AM BOB MAN DROS Y DUDALEN...

#MerthyrTownTrails
welovemerthyr.co.uk
@welovemerthyr

1

Cofeb Ryfel Merthyr Tudful

Mae'r gofeb ryfel ddiddorol hon, a ddadorchuddiwyd ar Ddiwrnod Cadoediad 1931, yn darlunio Santes Tudful yn edrych allan dros dri ffigwr: glöwr i'r dde a gwraig y glöwr â babi yn ei breichiau i'r chwith ohoni. Yn ôl rhai nid yn unig yw hon yn gofeb i feirwon y Rhyfel Mawr yn unig ond hefyd i'r rheini sydd wedi dioddef yn nhrychinebau'r pyllau glo.

Daw trychineb catastroffig Senghennydd ym 1913 i'r cof pan laddwyd dros 450 o ddynion a bechgyn mewn un ffrwydrad. Cafodd y cerflun o efydd ei greu gan L.S Merrifield, disgybl i Syr Goscombe John, ac mae'n un o'r cofebion gorau yng Nghymru ac yn unigryw fel cofeb am ryfel a meirwon y pyllau glo.

Yn agos at y fan hon, er nad yw i'w weld o'r ffordd, mae Tŷ Iscoed ble, ym 1935 yr ymsododd ryw 800 o brotestwyr, menywod yn bennaf, ar yr adeilad, ble yr oedd budd-daliadau ar sail modd anfad ("y dôl") yn cael eu gweinyddu yn ystod blynyddoedd y dirwasgiad yn y 1930au. Ymddangosodd adroddiad trylwyr am y digwyddiad yn y Merthyr Express o dan y pennawd "Gwarchae ar Swyddfeydd".

2

Flooks (Sef Ystafelloedd Te Lunah heddiw)

Wrth ddilyn ein trywydd byddwch yn mynd i lawr Stryd Fawr y dref, gan ddechrau wrth y pen gogleddol ym Mhontmorlais. Ar un adeg roedd hon yn ardal siopa brysur â thraffig dwy ffordd a thramiau, ond mae'r stryd yn dawelach bellach. Ar y pen eithaf, fe ddewch o hyd i Flooks, a oedd o dan berchnogaeth ac a redwyd am lawer o ddegawdau gan fenyw gref o'r enw Lillian Jenkins. Emporiwm gemwaith par excellance oedd hwn a gafodd gydnabyddiaeth leol a chenedlaethol yn gwerthu pob mathau o nwyddau cain, yn aur, arian a phorslen. Cafwyd cangen arall rywle arall yn y dref ac un ym Mryste. Maen nhw i gyd wedi cau bellach, ond mae'r adeilad rhestredig graddfa 2 Fictoraidd hwn yn parhau i sefyll. Os gewch chi amser, edrychwch ar y stucco cain a'r gwaith copr, a'r masgiau llew uwch ben ffenestri'r llawr cyntaf.

3

Redhouse

Galwch mewn i Redhouse nawr (ar gau ddydiau Sul). Yn union o'ch blaen, uwch ben y grisiau deuol, gallwch weld gwydr lliw cain sy'n coffau Jiwbilî Diemwnt y Frenhines Fictoria, 1837-1897. Cafodd y ffenestr ei gosod ar yr un adeg ag y cafodd yr adeilad ei gwblhau fel neuadd y dref gyntaf ar gyfer Merthyr Tudful.

Wedi eu cynnwys yn yr adeilad hwn hefyd mae cylchigau sy'n darlunio rhai o wragedd y dref hon a wnaeth gyfraniad amlwg. Ymhlith y rhai mwyaf nodedig mae Laura Ashley, a anwyd yn Nowlais ym 1925 ac a oedd yn enwog am ddylunio tecstilau. Hefyd Charlotte Guest, a oedd yn adnabyddus am ei chyfieithiad arloesol o straeon Cymraeg o'r Oesoedd Canol a adnabyddir fel y Mabinogion. Yma hefyd mae Rosemary Crawshay, Ursula Masson, Julie Williams a Santes Tudful ei hun yn cael eu clodfori.

4

Rosie Royals (Ar Gornel Stryd Fictoria)

Ar gornel Stryd Fictoria a'r Stryd Fawr, ble y caiff marchnad stryd Merthyr ei chynnal bob dydd Mawrth a dydd Sadwrn, roedd Rosie Royals (sef Pound Shop bellach). Y tu allan crogai helwriaeth, dofednod a chigoedd o bob math, tra y tu fewn cafwyd ffrwythau a llysiau a 'iaith gyfoethog' benodol. Roedd y chwedlonol Rosie yn drawiadol o ran ei golwg ac yn enwog fel cymeriad lliwgar yn ei bywyd personol. Weithiau cyfeirir at gyffordd y stryd hon fel Cornel Rosie Royals, gan yn gymaint oedd ei henwogrwydd hi a'i siop yn y dref.

8

Eglwys y Plwyf Santes Tudful

Mae Eglwys y Plwyf, hynafol Santes Tudful gerllaw ac ar y safle hwn neu'n agos ato y credir iddi hi farw. Cafodd ei lladd gan Bictiaid anrheithiol neu a oedden nhw'n Wyddelod neu'n farbariaid anghristnogol? Does neb yn siŵr o'r dyddiad chwaith, o bosib 420 neu 480. Y dyddiad diwethaf a gaiff ei ffafrio fel arfer o ran sefydlu'r dref hon a enwyd ar ei hôl. Roedd cysegrfa arfer bod fan hyn ond nid yw i'w gweld bellach. Roedd hi'n gysegrfa fawr ei chydnabyddiaeth o gyfnod y Tuduriaid yn y 1500au. Ceir cofnodion o daliadau'n cael eu gwneud am euro delwedd y Ferthyres Tudful. Cafodd golwg allanol yr eglwys ei newid dros y canrifoedd ac ar ddiwedd y 19 ganrif ail-ddyluniwyd yr eglwys yn helaeth yn ôl dyluniad J L Pearson, pensaer a arbenigai mewn adeiladau eglwysig. Roedd Syr John Betjeman yn frwdfrydig iawn ynghylch yr adeilad hwn gyda'i arddull Rufeinig a'i phorth fwa Normanaidd y dylid eu nodi. Dewch i mewn i diroedd yr eglwys drwy'r gât sy'n wynebu'r ffynnon goffa – gafaelwch yn y ddolen a dewch.

5

Tafarn y Goron

Tafarn y Goron yw'r dafarn hynaf yn y dref sydd yn parhau ar ei safle gwreiddiol. Yn ystod y 1840au cynnar, yn un o'i hystafelloedd cefn, cynhaliwyd cyfarfod grŵp Siartwyr benywaidd a oedd yn ceisio dwyn pwysau ar y Llywodraeth i roi hawliau pleidleisio i bob menyw. Roedd y cyfarfodydd hyn yn unigryw am ddau reswm: yn gyntaf am fod menywod yn ceisio cael y bleidlais yn gynnar yn y 19 ganrif ac yn ail, cyfarfod mewn tafarn o bob man, sef man yr oedden nhw i bob pwrpas wedi cael eu gwahardd ohono – am fod yn wragedd! Ond yma, yn un o dafarndai'r dref, oedd yr ystafelloedd cefn a hir gorau i gynnal cynulliad o'r fath.

6

Llys Janice Rowlands

Mae'r Stryd Fawr yn agor allan i Lys Janice Rowlands, a enwyd er cof am wraig annwyl iawn cyn Aelod Seneddol y dref, Ted Rowlands, sef yr Arglwydd Rowlands bellach. Sylwch ar y gwaith celf sydd wedi ei fewnosod i'r llawr ac a ddyluniwyd gan Chris Butler. Cafodd ei ysbrydoli gan wrthrychau a oedd yn cael eu harddangos yn Amgueddfa Cyfarthfa gan gynnwys offer masnachol amrywiol ond hefyd arferion cymdeithasol preswylwyr lleol: felly, caiff y canlynol eu darlunio yma: tâp casét, morthwyl, ffôn symudol cynnar, ipod, siswrn teiliwr a llawer o eitemau diddorol eraill.



7

Ffynnon Goffa Robert & Lucy Thomas

Ffynnon Goffa Robert a Lucy Thomas, a sefydlwyd ym 1906, yw canolbwynt y sgwâr ac fe dalwyd am y ffynnon gan un o'i disgynyddion, Syr. W.T. Lewis, a urddwyd yn ddiweddarach fel y cyntaf i fod yn Arglwydd Merthyr. Y mae'n dathlu cyfraniad Lucy Thomas fel "sylfaenydd masnach lo De Cymru". Fel gwraig weddw, gwnaeth hi barhau â'r gwaith o weithio lefelau glo ar lethrau'r bryniau lleol ar ôl marwolaeth ei gŵr yn yr 1820au. Cafodd y ffynnon ddŵr yfed hon â chanopi ei dylunio gan W Macfarlane & Co, sylfaenwyr haearn pensaerniol o Glasgow. Os edrychwch chi ar y tariannau coffa fe welwch gyfeiriadau at fwyngloddio yn cynnwys dyn yn trafod picas yn ogystal â llong stêm, locomotif ac arfbais Santes Tudful.



Diolch i'r hanesydd lleol Huw Williams a luniodd y trywydd hwn ac i wefan alangeorge.co.uk sy'n cynnwys llawer o ffotograffau o hen Ferthyr Tudful. Mae rhagor o wybodaeth ar gael am fenywod a'u rôl yn hanes y dref oddi wrth Wasanaeth Llyfrgelloedd Merthyr Tudful.